# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Gorffennaf 2020

Amser: 09.30 - 10.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6399

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AS<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)560 – Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(5)562 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffedu etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(5)565 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Bydd y Pwyllgor yn anelu at gael trafodaethau pellach am yr offeryn pan geir ymateb Llywodraeth Cymru, cyn cyflwyno adroddiad i'r Senedd.

### 2.4 SL(5)566 – Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.5 SL(5)563 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.6 SL(5)564 – Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 3.1 SL(5)152 – Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

## 4 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

### 4.1 SL(5)567 – Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

Trafododd y Pwyllgor yr Hysbysiad a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. At hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i geisio eglurhad ar ddyddiadau a ddyfynnir yn yr Hysbysiad a'r Datganiad Ysgrifenedig.

### 4.2 SL(5)571 – Addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr Hysbysiad a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 5 Papur(au) i'w nodi:

### 5.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Ymateb i'r adroddiad ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth - trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd i drafod drafft arall yn y cyfarfod nesaf.

## 8 Blaenraglen Waith - trafodaeth

Trafododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr hydref.